



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

## Prifysgol Bangor

### Cynllun ar gyfer Gwybodaeth Gyhoeddiedig

#### 1. Egwyddorion Cyffredinol

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl wybodaeth gyhoeddiedig a gynhyrchir gan y brifysgol o safon uchel. Er mwyn hwyluso hyn, mae'r brifysgol yn cydnabod yr angen i gael mesurau cadarn mewn grym i roi sicrwydd cyson ynghylch ansawdd ei gwybodaeth gyhoeddiedig, ac i sicrhau bod y gyfryw wybodaeth yn cydymffurfio'n llawn â goblygiadau cyfreithiol y brifysgol o ran deddfwriaeth gwarchod defnyddwyr,<sup>1</sup> deddfwriaeth yr iaith Gymraeg,<sup>2</sup> a disgwyliadau sicrhau ansawdd allanol, yn arbennig Rhan C o God Ansawdd y Deyrnas Unedig i Addysg Uwch.<sup>3</sup>

Mae dull Prifysgol Bangor o ymdrin â gwybodaeth gyhoeddiedig wedi'i seilio ar yr egwyddorion a ganlyn:

1. Bydd gwybodaeth a gynhyrchir gan y brifysgol yn glir, teg, amserol, cyfredol, cywir, cynhwysfawr, diamwys ac yn canolbwyntio ar anghenion y cynulleidfaoedd yr anelir atynt.

---

<sup>1</sup> Gweler y canllawiau a gynhyrchwyd gan y Competition and Markets Authority: 'UK higher education providers – advice on consumer protection law' (available at: [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/428549/HE\\_providers\\_-\\_advice\\_on\\_consumer\\_protection\\_law.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/428549/HE_providers_-_advice_on_consumer_protection_law.pdf)).

<sup>2</sup> Gweler Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif 6) Rheoliadau 2017 (ar gael yn: [http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/90/pdfs/wsi\\_20170090\\_mi.pdf](http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/90/pdfs/wsi_20170090_mi.pdf)).

<sup>3</sup> Rhan C o God Ansawdd y DU i Addysg Uwch: 'Information about higher education provision' (available at: <http://www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality/the-quality-code/quality-code-part-c>). Mae'r disgwyliad a nodir yn rhan C fel a ganlyn: 'Higher education providers produce information for their intended audiences about the learning opportunities they offer that is fit for purpose, accessible and trustworthy.'

2. Bydd gwybodaeth a gynhyrchir gan y brifysgol yn hygyrch a rhaid iddi fod ar gael ac yn adferadwy o fannau lle gall cynulleidfaoedd yr anelir atynt a defnyddwyr gwybodaeth ddisgwyl yn rhesymol i ddod o hyd iddi. Bydd fformat a dull cyflwyno gwybodaeth yn cymryd i ystyriaeth ofynion cynulleidfa amrywiol o ran mynd at y deunydd.
3. Bydd gwybodaeth a gynhyrchir gan y brifysgol yn unol â'r gofynion a nodir yn Safonau'r Iaith Gymraeg.
4. Bydd y brifysgol yn sicrhau bod yr holl delerau ac amodau sy'n berthnasol i staff yn deg a chytbwys. Ni fydd y brifysgol yn ceisio dibynnu ar delerau a allai roi myfyrwyr dan anfantais.
5. Bydd dulliau Prifysgol Bangor o ymdrin â chwynion yn hygyrch, clir a theg i fyfyrwyr.

Mae'r Cynllun hwn yn nodi categorïau o wybodaeth y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'i egwyddorion mewn perthynas â phob un o'r penawdau a ganlyn:

- Gwybodaeth i'r cyhoedd (Adran 2);
- Gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr (Adran 3);
- Gwybodaeth i fyfyrwyr presennol (Adran 4);
- Gwybodaeth i fyfyrwyr ynghylch cwblhau astudiaethau (Adran 5);
- Gwybodaeth am ansawdd a safonau academaidd (Adran 6); a
- Gwybodaeth sy'n ymwneud â darpariaeth gydweithredol (Adran 7).

Ym mhob un o'r Adrannau cyfeirir at y dangosyddion a nodir yn Rhan C Cod Ansawdd y DU i Addysg Uwch. Bwriedir i'r categorïau gwybodaeth fod yn ddangosol yn hytrach na chynhwysfawr, a chyfrifoldeb perchnogion gwybodaeth yw sicrhau bod holl wybodaeth gyhoeddedig yn cydymffurfio'n llwyr.

Mae Adran 7 y Cynllun yn nodi gweithdrefnau i fonitro gwybodaeth a chydymffurfio â'r Cynllun. Mae Atodiad 1 yn cynnwys ffurflen fonitro flynyddol y mae'n rhaid i berchnogion gwybodaeth ei llenwi, ac mae Atodiad 2 yn cynnwys tabl monitro sy'n nodi sut y caiff cydymffurfio ei fonitro, a bwriedir iddo gael ei ddefnyddio fel rhestr wirio gan berchnogion gwybodaeth wrth iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau dan y Cynllun.

Dylid nodi bod y Cynllun hwn yr un mor berthnasol i wybodaeth cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, ac mae'r egwyddorion yn berthnasol i holl ddarpariaeth gydweithredol y brifysgol.

## **2. Gwybodaeth i'r cyhoedd**

**Dangosydd 1:** Mae darparwyr addysg uwch yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n disgrifio eu cenhadaeth, gwerthoedd a strategaeth gyffredinol.

### **2.1 Gwybodaeth am y brifysgol**

Bydd y brifysgol yn cyhoeddi gwybodaeth deg a chywir ar ei gwefan sy'n briodol ar gyfer diddordebau ac anghenion y cyhoedd. Bydd y wybodaeth hon yn disgrifio natur y brifysgol a bydd yn galluogi'r cyhoedd i ddatblygu dealltwriaeth gywir o'i hamcanion a'i gweithgareddau. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol yn ymwneud â'r brifysgol:

- Cenhadaeth a gwerthoedd;
- Cynllun Strategol;
- Hanes;
- Proffil;
- Fframwaith sefydliadol;
- Statws elusennol;
- Cynllun Cyhoeddi;
- Cynllun Iaith Gymraeg;
- Cyfansoddiad y boblogaeth myfyrwyr;
- Y gwahanol ddulliau astudio a gefnogir;
- Rhaglenni a chymwysterau a gynigir;
- Partneriaethau cydweithredol;
- Partneriaethau ymchwil;
- Trefniadau llywodraethu;
- Adroddiadau blynyddol.

## **3. Gwybodaeth i Ddarpar Fyfrwyr**

**Dangosydd 2:** Mae darparwyr addysg uwch yn disgrifio'r broses ar gyfer ymgeisio a derbyn i raglen astudio.

### **3.1 Prosesau Ymgeisio a Derbyn**

Bydd y brifysgol yn cyhoeddi gwybodaeth ar ei gwefan ac mewn unrhyw ddeunyddiau cyhoeddiedig perthnasol sy'n dangos bod ei phrosesau ymgeisio a derbyn yn deg, eglur a chyson. Bydd y prosesau hyn yn cydymffurfio â holl ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol, yn cynnwys deddfwriaeth diogelu

defnyddwyr a chanllawiau a gynhyrchir gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys:

- Polisiâu a rheoliadau ymgeisio a derbyn i fyfyrwyr Cartref/UE/Rhyngwladol ar gyfer cyrsiau hyfforddedig ac ymchwil;
- Polisiâu a rheoliadau cofrestru i fyfyrwyr Cartref/UE/Rhyngwladol ar gyfer cyrsiau hyfforddedig ac ymchwil;
- Prosesau ar hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau derbyn;
- Gofynion mynediad i gyrsiau;
- Gofynion iaith Saesneg i fyfyrwyr rhyngwladol;
- Gofynion fisa i fyfyrwyr rhyngwladol;
- Prosesau ar gyfer achredu neu gydnabod dysgu blaenorol;
- Ffioedd, bwrsariaethau, ysgoloriaethau a mathau eraill o gefnogaeth ariannol sydd ar gael;
- Gwybodaeth am unrhyw gostau ychwanegol;
- Gwybodaeth am fyw yn y gymdogaeth;
- Manylion am ddyddiau agored i alluogi darpar fyfyrwyr i ymweld â'r brifysgol.

**Dangosydd 3:** Mae darparwyr addysg uwch yn cyhoeddi gwybodaeth i helpu darpar fyfyrwyr i ddewis eu rhaglen gyda dealltwriaeth o'r amgylchedd academaidd y byddant yn astudio ynddo a'r gefnogaeth a roddir i hyrwyddo eu datblygiad a'u cyrhaeddiad.

### **3.2 Gwybodaeth benodol i ysgolion**

Bydd tudalennau ysgolion ar wefan y brifysgol ac mewn unrhyw ddeunyddiau printiedig perthnasol yn rhoi darlun cyfredol, cywir a theg i ddarpar fyfyrwyr o'r amgylchedd academaidd y byddant yn astudio ynddo. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys:

- Proffiliau staff academaidd, yn cynnwys arbenigedd addysgu ac ymchwil;
- Arbenigeddau academaidd;
- Statws cenedlaethol/rhyngwladol, yn cynnwys sgoriau NSS a REF;
- Cyfarpar arbenigol neu adnoddau eraill sydd ar gael i gefnogi addysgu ac ymchwil;
- Cysylltiadau â diwydiant, busnes a'r proffesiynau, yn cynnwys cyrff proffesiynol, statudol a rheolaethol;
- Cyflogadwyedd graddedigion.

### **3.3 Gwybodaeth benodol am raglenni**

Bydd tudalennau rhaglenni ar wefan y brifysgol ac mewn unrhyw ddeunyddiau printiedig perthnasol yn rhoi darlun cyfredol, cywir a theg i ddarpar fyfyrwyr o'r rhaglen y byddant yn ei hastudio. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys:

- Cynnwys a fframwaith y rhaglen;
- Yr amgylchiadau lle gall y cynnwys a'r fframwaith newid;
- Dulliau astudio (er enghraifft, dysgu rhan-amser neu o bell);
- Hyd y rhaglen;
- Gofynion mynediad;
- Dulliau addysgu, yn cynnwys oriau cyswllt;
- Dulliau asesu;
- Achrediadau proffesiynol;
- Rhagolygon gyrfa a chyflogadwyedd;
- Lleoliad astudio;
- Costau ychwanegol, yn cynnwys cyfarpar arbenigol a theithiau maes;
- Cysylltiadau â diwydiant, busnes a'r proffesiynau, yn cynnwys cyrff proffesiynol, statudol a rheolaethol;
- Cyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Cyfleoedd i fynd ar leoliadau;
- Cyfleoedd i astudio dramor;
- Y cymhwyster a roddir ar ôl gorffen y rhaglen yn llwyddiannus;
- Data KIS.

### **3.4 Gwybodaeth ychwanegol i fyfyrwyr ymchwil**

Bydd y brifysgol hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth deg a chywir ar ei gwefan ac mewn unrhyw ddeunyddiau cyhoeddiedig perthnasol i alluogi darpar fyfyrwyr ymchwil i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch astudio yn y brifysgol, yn cynnwys:

- Yr amgylchedd ymchwil yn ysgolion y brifysgol;
- Trefniadau goruchwyllo;
- Trefniadau monitro a gofynion ar gyfer symud ymlaen;
- Cefnogaeth fugeiliol;
- Cyfleoedd i gymryd rhan mewn addysgu.

### **3.5 Gwybodaeth am yr amgylchedd dysgu a chefnogaeth i fyfyrwyr**

Bydd gwefan y brifysgol yn cynnwys gwybodaeth i gynorthwyo darpar fyfyrwyr i ddeall yr amgylchedd dysgu a chefnogaeth i fyfyrwyr a ddarperir gan y brifysgol. Bydd hyn yn cynnwys manylion am y canlynol:

- Cefnogaeth i fyfyrwyr a gwasanaethau gofal bugeiliol;
- Gyrfaoedd a chyflogadwyedd;
- Adnoddau llyfrgell a dysgu;
- Cyfleusterau ar gyfer dysgu;
- Llety i fyfyrwyr;
- Cyfleusterau cymdeithasol a hamdden;
- Undeb y Myfyrwyr;
- Y system Arweinwyr Cyfoed;
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth.

## **4. Gwybodaeth i fyfyrwyr presennol**

**Dangosydd 4:** Rhoddir gwybodaeth am y rhaglen astudio i fyfyrwyr cyfredol ar ddechrau eu rhaglen a thrwy gydol eu hastudiaethau.

### **4.1 Gwybodaeth am raglenni astudio**

Bydd y brifysgol yn darparu gwybodaeth gywir, fanwl a hygyrch yn ymwneud â'u rhaglen astudio i fyfyrwyr cyfredol yn y Llawlyfr Ar-lein a gwe-dudalennau perthnasol. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys:

#### **4.1.1 Gwybodaeth gyffredinol**

- Dyddiadau semestrau, cyfnodau addysgu ac arholi;
- Gofynion a threfniadau cofrestru;
- Sut i newid modiwl/rhaglen radd;
- Sut i ohirio astudio;
- Gofynion talu ffioedd;
- Beth mae camymddwyn academiaidd yn ei olygu;
- Trefniadau iechyd a diogelwch.

#### **4.1.2 Gwybodaeth am yr Ysgol (yn ychwanegol at Ran 3.2, uchod)**

- Enwau a manylion cyswllt deiliaid swyddi allweddol, yn cynnwys Pennaeth Ysgol, Cyfarwyddwr Addysgu a Dysgu, Uwch Diwtor, Swyddog Arholiadau,

Swyddog Cyflogadwyedd, Cydlynnydd Arweinwyr Cyfoed, Swyddog Cyswllt Anabledd, Swyddog Ennyn Diddordeb Myfyrwyr, Cydlynnydd Cyfnewidiadau;

- Enwau a manylion cyswllt Trefnwyr Rhaglen;
- Meini prawf marcio ar gyfer asesiadau;
- Trefniadau cyflwyno asesiadau;
- Trefniadau i ddychwelyd gwaith wedi'i farcio a rhoi sylwadau arno;
- Trefniadau ar roi gwybod am amgylchiadau arbennig;
- Trefniadau i ddelio ag camymddwyn academaidd;
- Polisiâu presenoldeb;
- Unrhyw ofynion arbennig yn ymwneud ag iechyd a diogelwch;
- Trefniadau goruchwyllo myfyrwyr ymchwil ôl-radd;
- Trefniadau strwythurol a gweinyddol ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-radd.

#### 4.1.3 Gwybodaeth am y Rhaglen (yn ychwanegol at Ran 3.3, uchod)

- Manylion cwricwlwm;
- Deilliannau dysgu;
- Y cydbwysedd rhwng gweithgareddau dysgu ac addysgu wedi'u hamserlennu; astudio annibynnol dan gyfarwyddyd; amser a dreuliyd ar leoliad/astudio dramor; neu weithgareddau dysgu eraill;
- Cyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Cyfleoedd i astudio dramor a phrofiadau dysgu rhyngwladol eraill;
- Cyfleoedd ar gyfer dysgu yn y gweithle.

#### 4.1.4 Gwybodaeth am Fodiwlau

- Manylion am staff sy'n gyfrifol am gyflwyno;
- Deilliannau dysgu:
- Rhagofynion/cydogfynion;
- Cynnwys;
- Dulliau asesu, yn cynnwys nifer geiriau neu gyfwerth;
- Pwysoli cydrannau asesiad;
- Lleoliad cyflwyno;
- Unrhyw gostau ychwanegol;
- Rhestrau darllen.

**Dangosydd 5:** Mae darparwyr addysg uwch yn nodi beth y maent yn ei ddisgwyl gan fyfyrwyr cyfredol a beth y gall myfyrwyr cyfredol ei ddisgwyl gan y darparwr addysg uwch.

## **4.2 Cyfrifoldebau myfyrwyr**

Bydd y brifysgol yn sicrhau y caiff myfyrwyr cyfredol wybodaeth gywir a hygyrch am eu cyfrifoldebau. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys:

- Y Siarter Myfyrwyr;
- Rheoliadau'n ymwneud ag ymddygiad myfyrwyr;
- Rheoliadau'n ymwneud â defnyddio adnoddau Technoleg Gwybodaeth a'r llyfrgell;
- Trefniadau disgyblaeth academiaidd;
- Trefniadau addasrwydd i ymarfer;
- Trefniadau ffitrwydd i astudio;
- Disgwyliadau moeseg ymchwil.

## **4.3 Beth mae gan fyfyrwyr hawl i'w ddisgwyl oddi wrth y brifysgol**

Bydd y brifysgol yn sicrhau y caiff myfyrwyr cyfredol wybodaeth gywir a hygyrch am yr hyn y mae ganddynt hawl i'w ddisgwyl gan y brifysgol. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys:

- Y Siarter Myfyrwyr;
- Rheolau a rheoliadau;
- Sut i roi gwybod am amgylchiadau lliniarol;
- Trefniadau cwynion ac apeliadau;
- Sut i weld adroddiadau arholwyr allanol;
- Gwybodaeth am gyfleoedd lleoliad, cyfleoedd dysgu yn y gwaith a chyfleoedd profiadau dysgu rhyngwladol;
- Perchenogaeth eiddo deallusol a gynhyrchir gan fyfyrwyr.

## **4.4 Adnoddau a chyfleusterau i alluogi myfyrwyr i ddysgu a chyflawni**

Bydd y brifysgol yn sicrhau y caiff myfyrwyr cyfredol wybodaeth gywir a hygyrch mewn llawlyfr ar-lein a phrintiedig am yr adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael i gefnogi myfyrwyr i ddysgu a chyflawni, a sut y gellir mynd at y rhain. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys:

- Gwasanaethau cefnogi myfyrwyr;
- Adnoddau llyfrgell a dysgu;
- Cyfarwyddyd gyrfaeoddd;
- Llety i fyfyrwyr;
- Cyfleusterau cymdeithasol a hamdden;



- Undeb y Myfyrwyr;
- Gwobr Cyflogadwyedd Bangor.

#### **4.5 Dulliau ymwneud â myfyrwyr**

Bydd y brifysgol yn sicrhau y caiff myfyrwyr cyfredol wybodaeth gywir a hygyrch am y dulliau sydd wedi'u sefydlu ar gyfer ymwneud â myfyrwyr. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys:

- Dulliau o gasglu adborth myfyrwyr ac ymateb iddi;
- Trefniadau ar gyfer cynrychiolaeth gan fyfyrwyr.

### **5. Gwybodaeth i fyfyrwyr ar ôl cwblhau astudiaethau**

**Dangosydd 6:** Pan fo myfyrwyr yn gadael eu rhaglen astudio, mae darparwyr addysg uwch yn rhoi cofnod manwl o'u hastudiaethau iddynt, sy'n rhoi tystiolaeth i eraill o gyrhaeddiad y myfyrwyr yn eu rhaglen academaidd.

#### **5.1 Gwybodaeth ar ôl cwblhau astudiaethau**

Bydd y brifysgol yn rhoi'r wybodaeth a ganlyn i fyfyrwyr ar ôl iddynt gwblhau eu hastudiaethau:

- Cofnodion astudio a chyrhaeddiad academaidd i fyfyrwyr sydd wedi cwblhau eu rhaglenni astudio ac i rai sy'n gadael cyn cwblhau;
- Gwybodaeth ynghylch gwasanaethau i alumni.

### **6. Gwybodaeth am ansawdd a safonau academaidd**

**Dangosydd 7:** Mae darparwyr addysg uwch yn nodi eu trefniadau ar gyfer rheoli safonau academaidd a sicrhau a gwella ansawdd a disgrifio'r data a'r wybodaeth a ddefnyddir i gefnogi ei weithredu.

#### **6.1 Sicrhau Ansawdd**

Bydd y brifysgol yn darparu gwybodaeth gywir, fanwl a hygyrch ar drefniadau ei phrosesau sicrhau ansawdd. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys:

- Manylion am yr Uned Sicrhau Ansawdd a Dilysu;
- Y Cod Ansawdd Academaidd;
- Prosesau cymeradwyo rhaglenni/modiwlau;

- Prosesau arolwg blynyddol;
- Trefniadau arholi allanol;
- Archwiliadau Ansawdd Mewnol;
- Gwybodaeth am gyrff proffesiynol, statudol a rheoliadol.

## **6.2 Darpariaeth ar y cyd**

Bydd y brifysgol yn darparu gwybodaeth gywir, fanwl a hygyrch am ei threfniadau darpariaeth ar y cyd. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys:

- Gwybodaeth am ddarpariaeth gydweithredol, yn cynnwys sut i sefydlu partneriaethau cydweithredol;
- Cofrestr o bartneriaethau cydweithredol y brifysgol, yn cynnwys trefniadau trosglwyddo.

## **7. Gwybodaeth sy'n ymwneud â Darpariaeth Gydweithredol**

**Dangosydd 7:** Darparwyr addysg uwch cadw cofnodion (yn ôl math a chategori) o'r holl drefniadau sydd ar gyfer cyflenwi addysg uwch gydag eraill o dan gytundebau ffurfiol.

### **7.1 Gwybodaeth am ddarpariaeth gydweithredol**

Bydd y Brifysgol yn darparu gwybodaeth gywir, gyfredol a hygyrch am y trefniadau sydd ganddi o ran y ddarpariaeth gydweithredol. Bydd yr wybodaeth honno'n cynnwys:

- Gwybodaeth am y ddarpariaeth gydweithredol, gan gynnwys sut mae sefydlu partneriaethau cydweithredol;
- Cofrestr o bartneriaethau cydweithredol y Brifysgol, gan gynnwys y trefniadau mynegiant.

### **7.2 Gwybodaeth a gynhyrchir gan y partner sefydliadau**

Bydd y Brifysgol yn cymryd camau priodol i sicrhau bod yr wybodaeth a gynhyrchir gan y partner sefydliadau ynghylch y rhaglenni a gaiff eu cyflenwi ar y cyd â'r Brifysgol yn gywir, yn gyfredol ac yn hygyrch. Bydd hynny'n cynnwys:

- Gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr;
- Gwybodaeth i'r myfyrwyr presennol.

## **8. Monitro a Chydymffurfio**

### **8.1 Perchnogion Gwybodaeth**

Bydd pob Pennaeth Ysgol Academaidd/Adran Wasanaeth yn cael ei bennu'n 'Berchen Gwybodaeth' ar gyfer yr holl wybodaeth gyhoeddedig a gynhrychir gan yr ysgol/adran o fewn y Cynllun hwn. Ceir rhestr yn Atodiad 2 yn nodi pwy sy'n gyfrifol am bob elfen o'r wybodaeth yn y Cynllun hwn, ynghyd â chrynodeb sut y caiff cydymffurfio ei fonitro'n rheolaidd. Ar gyfer gwybodaeth a gynhrychir gan sefydliadau partner (gweler 7.2, uchod), bydd yr ysgol/adran sy'n gyfrifol am oruchwylio'r wybodaeth yn cael ei hystyried yn berchennog y wybodaeth at ddibenion y cynllun hwn.

Dylid nodi y gall perchenogion gwybodaeth fod yn rhai 'sylfaenol' neu 'eilaid'. Bydd y blaenaf yn berthnasol lle mae perchen gwybodaeth yn gyfrifol am gynhyrchu'r wybodaeth, tra bydd yr olaf yn berthnasol lle mae perchen gwybodaeth yn gyfrifol am gyfathrebu gwybodaeth sydd wedi cael ei chynhyrchu gan berchen gwybodaeth arall. Mewn achosion o'r fath, rhaid sicrhau bod y wybodaeth a gyhoeddir gan y perchenogion gwybodaeth eilaidd, yn adlewyrchu'r wybodaeth a gynhyrchwyd gan y perchenogion gwybodaeth sylfaenol.

Yn achos Ysgolion Academaidd, gellir cytuno ar lefel Coleg y bydd swyddogaeth Perchen Gwybodaeth pob Ysgol o fewn y Coleg hwnnw yn cael ei phennu i Reolwr y Coleg.

### **8.2 Ffurflenni monitro blynyddol**

Disgwylir i'r Perchen Gwybodaeth adolygu gwybodaeth gyhoeddedig a llofnodi ffurflen fonitro (gweler Atodiad 1) yn flynyddol i gadarnhau bod gwybodaeth gyhoeddedig yn cyflawni gofynion y Cynllun hwn. Mae'r ffurflen yn cynnwys bocs i'r Perchen Gwybodaeth egluro sut y cyflawnwyd y monitro.

Yn achos gwybodaeth lle mae'r Perchen Gwybodaeth yn Bennaeth Ysgol neu Reolwr Coleg (gwybodaeth academaidd), rhaid i ffurflenni gael eu cyflwyno i'r Uned Sicrhau a Dilysu Ansawdd erbyn 1 Rhagfyr bob blwyddyn.

Yn achos gwybodaeth lle mae'r Perchen Gwybodaeth yn Bennaeth Adran Wasanaeth (gwybodaeth yn ymwneud â gwasanaeth), rhaid i ffurflenni gael eu cyflwyno i'r Tim Llywodraethu a Chydymffurfio erbyn 1 Rhagfyr bob blwyddyn.

### **8.3 Monitro Cydymffurfio**

Bydd yr Uned Sicrhau a Dilysu Ansawdd yn monitro cydymffurfio yn achos gwybodaeth academiaidd, a bydd yr Uned Gydymffurfio'n monitro cydymffurfio yn achos gwybodaeth yn ymwneud â gwasanaeth. Bydd y ddwy uned yn adrodd i Grŵp Arolygu Gwybodaeth y Brifysgol, a fydd yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun.

### **8.4 Monitro parhaus**

Bydd yr Uned Sicrhau a Dilysu Ansawdd, y Tim Llywodraethu a Chydymffurfio a Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth yn monitro gwybodaeth yn barhaus drwy gynnal gwiriadau ar hap. Lle gwelir bod gwybodaeth ar goll, yn anghywir neu'n anaddas fel arall, rhoddir gwybod trwy lythyr i'r Perchen Gwybodaeth perthnasol fel y gellir unioni'r sefyllfa. Rhoddir gwybod i Grŵp Arolygu Gwybodaeth y Brifysgol am achosion o beidio â chydymffurfio.